# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 1

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

## PENNOD 1

HYBU A CHEFNOGI AELODAETH O AWDURDODAU LLEOL

*Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr*

### 2 Cwblhau arolwg a chyhoeddi gwybodaeth

(1) Rhaid i awdurdod lleol gwblhau ei arolwg a darparu'r wybodaeth sy'n cael ei chrynhoi ganddo i Weinidogion Cymru cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiad cyffredin y mae'n ymwneud ag ef.

(2) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth ar unrhyw ffurf ragnodedig neu mewn unrhyw ddull rhagnodedig.

(3) Caiff awdurdod lleol gyhoeddi'r wybodaeth sy'n cael ei chrynhoi gan arolwg yn y dull y mae o'r farn ei bod yn briodol ei chyhoeddi, yn ddarostyngedig i is-adran (6).

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) crynhoi'r wybodaeth a gânt oddi wrth awdurdodau lleol o dan yr adran hon, a
- (b) ei chyhoeddi cyn pen deuddeng mis ar ôl dyddiad yr etholiad cyffredin y mae'n ymwneud ag ef.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru—

- (a) cyhoeddi gwybodaeth o dan is-adran (4)(b) yn y dull y maent o'r farn ei bod yn briodol ei chyhoeddi, yn ddarostyngedig i is-adran (6);

(b) rhannu unrhyw wybodaeth a ddarperir iddynt o dan is-adran (1) ag unrhyw gorff sy'n cynrychioli buddiannau cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau cymuned yng Nghymru.

(6) Nid yw unrhyw wybodaeth a geir o dan adran 1 neu'r adran hon i'w chyhoeddi na'i rhannu ar unrhyw ffurf sydd, naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd ag unrhyw wybodaeth arall, yn datgelu pwy yw unrhyw unigolyn y mae'n ymwneud ag ef neu'n ei gwneud yn bosibl i'r unigolyn hwnnw gael ei adnabod.